OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2007 Rhif 3285 (Cy.289) (C.134)

# POBL ANABL, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 ("y Ddeddf") yn diwygio'n helaeth Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ("Deddf 1995"), a gwneud darpariaethau penodol eraill.

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym "ddarpariaethau bathodyn glas" y Ddeddf, y mae ei rhychwant yn gyfyngedig i Gymru a Lloegr (adran 20(8)), o ran Cymru yn unig. Dyma yw darpariaethau'r bathodyn glas: adran 9, Rhan 2 o Atodlen 1, cofnodion penodol yn Atodlen 2 ac adran 19 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau hynny yn yr Atodlenni hynny (adran 20(10)).

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 3285 (W.289) (C.134)

# DISABLED PERSONS, WALES

# The Disability Discrimination Act 2005 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Disability Discrimination Act 2005 ("the Act") extensively amends the Disability Discrimination Act 1995 ("the 1995 Act"), and makes certain other provisions.

Article 2 brings into force the "blue badge provisions" of the Act, the extent of which is limited to England and Wales (section 20(8)), in relation to Wales only. The blue badge provisions are: section 9, Part 2 of Schedule 1, certain entries in Schedule 2 and section 19 so far as it relates to those provisions in those Schedules (section 20(10)).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3285 (Cy.289) (C.134)

# POBL ANABL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

*Gwnaed* *15 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 20(4)(b) o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005;

ystyr "Deddf 1995" ("*the 1995 Act*") yw Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;(**3**).

**Cychwyn darpariaethau bathodyn glas o ran Cymru**

**2**. 30 Mawrth 2008 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf, i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, ddod i rym-

(a) adran 9 (cydnabod bathodynau pobl anabl a ddyroddwyd y tu allan i Brydain Fawr);

(**1**) 2005 p.13.

(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) 1995 p.50. Cafodd Deddf 1995 ei diwygio ar sawl achlysur. Gwnaed diwygiadau arwyddocaol gan Ddeddf y Comisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd 1999 (p.17), gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p.10), gan Reoliadau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/1673), a chan Reoliadau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (Pensiynau) 2003 (O.S. 2003/2770).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 3285 (W.289) (C.134)

# DISABLED PERSONS, WALES

## The Disability Discrimination Act 2005 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2007

*Made* *15 November 2007*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the National Assembly for Wales by section 20(4)(b) of the Disability Discrimination Act 2005(**1**) and now vested(**2**) in them, make the following Order:

**Title, application and interpretation**

**1**.-(1) The title of this Order is the Disability Discrimination Act 2005 (Commencement No.1) (Wales) Order 2007 and it applies in relation to Wales.

(2) In this Order-

"the Act" means the Disability Discrimination Act 2005;

"the 1995 Act" means the Disability Discrimination Act 1995(**3**).

**Commencement of blue badge provisions in relation to Wales**

**2**. 30 March 2008 is the day appointed for the coming into force so far as relates to Wales, of the following provisions of the Act-

(a) section 9 (recognition of disabled persons' badges issued outside Great Britain);

(**1**) 2005 c.13.

(**2**) By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

(**3**) 1995 c.50. The 1995 Act has been amended on several occasions. Significant amendments were made by the Disability Rights Commission Act 1999 (c.17), the Special Educational Needs and Disability Act 2001 (c.10), the Disability Discrimination Act 1995 (Amendment) Regulations 2003 (S.I. 2003/1673), and the Disability Discrimination Act 1995 (Pensions) Regulations 2003 (S.I. 2003/2770).

(b) Rhan 2 o Atodlen 1 ac adran 19(1) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen honno;

(c) y cofnodion yn Atodlen 2 o ran Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a Deddf Rheoli Traffig 2004(**2**), ac adran 19(2) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cofnodion hynny.

(b) Part 2 of Schedule 1 and section 19(1) so far as relates to that Part of that Schedule;

(c) the entries in Schedule 2 in respect of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**) and the Traffic Management Act 2004(**2**), and section 19(2) so far as relates to those entries.

*Ieuan Wyn Jones*

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

15 Tachwedd 2007

15 November 2007

(**1**) 1984 p.27.

(**2**) 2004 p.18.

(**1**) 1984 c.27.

(**2**) 2004 c.18.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3285 (Cy.289) (C.134)

# POBL ANABL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 3285 (W.289) (C.134)

# DISABLED PERSONS, WALES

The Disability Discrimination Act 2005 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2007

© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W201/12/07 ON